**Statws** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 1314

# Gorchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 7) (Cymru) 2005

**Diwrnodau penodedig**

**2.** 31 Mai 2005 yw'r dyddiad a bennwyd i'r canlynol ddod i rym—

(a) adran 51 o'r Ddeddf (diwygiadau o ran mapiau diffiniol a datganiadau) i'r graddau y mae'n rhoi effaith i ddarpariaethau canlynol Atodlen 5 i'r Ddeddf—

(i) paragraff 8 (cyfuno mapiau diffiniol a datganiadau),

(ii) paragraff 10 (ceisiadau am rai orchmynion penodol o dan Ran III),

(iii) paragraff 11 (gweithdrefn mewn cysylltiad â gorchmynion penodol); a

(b) adran 57 o'r Ddeddf (creu, cau a gwyro priffyrdd) i'r graddau y mae'n rhoi effaith i ddarpariaethau canlynol Atodlen 6 i'r Ddeddf—

(i) paragraff 2 (dyletswydd i roi sylw i amaethyddiaeth, coedwigaeth a gwarchodaeth natur),

(ii) yn ddarostyngedig i erthygl 5 o'r Gorchymyn hwn, paragraff 3 (diwygio adran 31 o Ddeddf 1980 sy'n ymwneud â chyflwyno ffordd i fod yn briffordd, gan y tybir hynny ar ôl ei defnyddio gan y cyhoedd am 20 mlynedd),

(iii) paragraff 9(1) i (3) (gwyro llwybrau troed a llwybrau ceffylau),

(iv) paragraff 11 (gwyro llwybrau troed a llwybrau ceffylau sy'n croesi rheilffyrdd),

(v) paragraff 14(1) a (4)(a) (darpariaethau atodol),

(vi) paragraff 20(a) i (c) (dehongli), a

(vii) paragraff 24 (dirprwyo'r swyddogaeth o wneud penderfyniad).